




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Law yn Llaw at lechyd

Cynllun Cenedlaethol Cymru  
ar gyfer lechyd y Geg  
Adroddiad Blynyddol 2016-17



# LAW YN LLAW AT IECHYD: CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG

## Adroddiad Blynyddol 2016 / 17

### Rhagair gan y Prif Swyddog Deintyddol

Mae'n bleser gennyf gyflwyno pedwerydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg (y Cynllun Cenedlaethol) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013. Mae'r Adroddiad hwn yn darparu trosolwg cenedlaethol, yn disgrifio'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Cenedlaethol yn ei bedwaredd flwyddyn, ac yn nodi meysydd lle mae angen cymryd camau pellach.


Mae ymrwymiad y proffesiwn deintyddol yn parhau i wneud gwahaniaeth cynaliadwy i iechyd y geg ymhlith dinasyddion Cymru. Mae hefyd yn bwysig cydnabod cyfraniad rhanddeiliaid allweddol yn arbennig Byrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Deoniaeth Cymru (yr Adran Ddeintyddol) tuag at gyflawni'r cynllun.

Yn ystod 2016/17 mae Byrddau Iechyd wedi parhau i gyflawni gwelliannau yn erbyn nifer o gamau gweithredu pwysig yn y Cynllun, ac mae rhai camau bellach wedi'u cwblhau. Yn unol â Chynlluniau Cyflawni eraill Llywodraeth Cymru rydym yn bwriadu diweddarau Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Iechyd y Geg yn nes ymlaen yn 2017. Byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i:

- ddileu'r camau hynny sydd wedi'u cwblhau
- canolbwyntio o'r newydd ar y rhai sydd wedi bod yn heriol i'w cyflawni
- cyflwyno materion newydd y mae angen mynd i'r afael â hwy

Mae'n galonogol iawn myfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd er mwyn gwella a chynnal iechyd a lles y geg i holl ddinasyddion Cymru, yn ogystal â chydabod yr hyn sydd ar ôl i'w wneud.

Yn gywir



**Colette Bridgman**  
**Prif Swyddog Deintyddol**

## Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd [Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg 2013 i 2018](#), ym mis Mawrth 2013. Mae'n darparu cyfeiriad ar gyfer gwella iechyd y geg a lleihau anghydraddoldebau iechyd y geg yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar dair thema, sef *atal*, *darparu gwasanaethau ac ansawdd a diogelwch*.

2. Pan gyhoeddwyd y Cynllun Cenedlaethol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol ar gyfer Cymru. Dyma'r pedwerydd adroddiad o'r fath - sy'n rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed gan yr holl rhanddeiliaid allweddol yn ystod 2016 / 17.

3. Etholwyd Llywodraeth newydd Cymru yn 2016 ac yn dilyn hynny, cyhoeddwyd Rhaglen Lywodraethu newydd, *Symud Cymru Ymlaen*. Mae strategaeth newydd ar gyfer iechyd wrthi'n cael ei llunio fel rhan o gyfres o 4 strategaeth: Ffyniannus a Diogel, Iach ac Egnïol, Uchelgeisiol ac yn Dysgu, ac Unedig a Chysylltiedig.

4. Yn ystod 2017, byddwn yn dechrau gweithio i adolygu'r Cynllun Cenedlaethol yn unol â Symud Cymru Ymlaen a'r Strategaeth Iach a Gweithgar. Byddwn yn adeiladu ar y cyflawniadau a wnaed ers 2013 a byddwn yn gweithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid eraill i nodi'r materion y mae angen inni fynd i'r afael â hwy yn y cynllun diwygiedig, ac yn ei ddatblygu i bennu'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol.

## Cyfraniad rhanddeiliaid at gyflawni'r Cynllun Cenedlaethol

5. Eleni mae'r Byrddau Iechyd wedi gwneud rhagor o gynnydd o ran cyflawni eu cynlluniau lleol ar gyfer iechyd y geg (Cynlluniau Lleol), ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, Adran Ddeintyddol Deoniaeth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd ar gamau gweithredu unigol i ategu'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Cenedlaethol. Er mwyn sicrhau bod cynnydd yn parhau ar y trywydd cywir mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu proses adolygu sy'n nodi camau gweithredu allweddol y Cynllun Cenedlaethol, sy'n monitro cerrig milltir a'r gwaith cyflawni, ac sy'n cadarnhau'r cyfrifoldeb dros gyflawni. Mae modd gweld ciplun o'r sefyllfa bresennol yn **Atodiad 1** ac mae adroddiadau a gyhoeddwyd gan rhanddeiliaid a ddefnyddir yn sail i'r Adroddiad Blynyddol ar gael drwy'r dolenni a ddarperir yn Atodiad 1.

## Datblygu Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg

6. Mae'r holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru wedi cyhoeddi Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg a gymeradwywyd gan eu Byrddau a chafodd yr holl Gynlluniau eu hadolygu yn erbyn gofynion y Cynllun Cenedlaethol a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn benodol, gofynnwyd unwaith eto am sicrwydd o ran ymrwymo i gyflawni'r 20 Cam Gweithredu a nodwyd ar gyfer Byrddau Iechyd. Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn darparu meincnod ar gyflawni'r amcanion cenedlaethol gan bob Bwrdd Iechyd.

7. Gan fod y cynllun cenedlaethol yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd, mae'r Byrddau Iechyd wedi cael eu hannog i'w hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu anghenion lleol, newidiadau o ran blaenoriaethau a chyfyngiadau ariannol. Rydym am weld cyfeiriadau at Gynlluniau Lleol mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig er mwyn sicrhau bod iechyd y geg yn cael ei ymgorffori yng nghynlluniau ehangach byrddau iechyd, a bod gwasanaethau deintyddol a'r gweithlu deintyddol yn cael eu cynnwys yn briodol. Dylai'r Cynlluniau Lleol fod yn gysylltiedig â chynlluniau allweddol eraill byrddau iechyd er mwyn hwyluso croesgyfeirio a sicrhau cysondeb.

8. Mae cyfeiriadau calonogol at ymwneud â chlystyrau Gofal Sylfaenol ac rydym yn croesawu'r camau hyn i sicrhau bod iechyd y geg yn dod yn rhan integredig o waith clwstwr.

9. Mae cynnwys a lefel y dystiolaeth a ddarperir yn amrywio a chaiff hyn ei amlygu mewn rhannau diweddarach o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae llawer iawn o arferion da eisoes ar y gweill ledled Cymru sy'n darparu sail gadarn i adeiladu arno ar gyfer y dyfodol. Rydym yn parhau i annog Byrddau Iechyd i rannu enghreifftiau o arfer da.

### **Enghreifftiau o arfer da**

- Mae rhai cynlluniau'n disgrifio sut mae'r Bwrdd, (neu is-bwyllgor priodol), yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni Cynllun Lleol ar gyfer Iechyd y Geg. Mae cynnwys Cyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd Iechyd (neu ddirprwy enwebedig) yn y gwaith o oruchwylio'r broses o gyflawni'r Cynlluniau Lleol yn hanfodol i sicrhau llwyddiant.
- Mae eraill yn cynnwys disgrifiad o'r grŵp(iau) sy'n adolygu cynnydd o ddydd i ddydd wrth gyflwyno'r cynllun. Byddem yn annog pob Bwrdd Iechyd i gynnwys y rhain mewn diweddariadau yn y dyfodol.
- Mae'n ddefnyddiol gweld tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd sydd wedi'i gyhoeddi mewn manau eraill neu sydd ar gael os oes angen. Byddem yn annog pob sefydliad i wneud hyn oherwydd ei fod yn darparu diweddariadau ar dystiolaeth ac effaith i bersonél Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd.
- Mae'n amlwg bod timau wedi cyfrannu at rai adroddiadau a'u bod wedi cael eu hysgrifennu gan nifer o bobl. Byddem yn annog Byrddau Iechyd i ddilyn yr enghraifft hon drwy ofyn i staff a chanddynt brofiad uniongyrchol o'r camau gweithredu a darparu gwasanaethau'n lleol i gyfrannu at yr adran berthnasol o'r adroddiad, er enghraifft y gwaith ar gyflawni rhaglenni gwella gwasanaethau 1000 o fywydau.

### **Materion y dylid rhoi sylw iddynt wrth barhau i ddatblygu ac adolygu Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg**

- Mae'n rhaid i adroddiadau ddisgrifio'n glir sut mae'r sefydliad yn cyflawni'r camau gweithredu (neu nodi os nad ydynt wedi'u cyflawni). Mae rhai adroddiadau'n nodi bod camau yn cael eu cymryd ond nid ydynt yn ategu hyn

gyda data i ddarparu tystiolaeth o'u cyflawniad er mwyn atgyfnerthu a chadarnhau hygredd y diweddariad. Byddai'n well gennym hefyd weld asesiad gonest o heriau o ran cyflawni'r camau gweithredu;

- Rydym yn cydnabod nad yw'n hawdd mesur canlyniadau, ond mae'n ddefnyddiol defnyddio a chynnwys mesurau procsi megis gwerthuso gweithgaredd neu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Hoffem yn arbennig weld adroddiadau ar allbynnau / canlyniadau gwaith y Rhwydweithiau Clinigol a Reolir.
- Rydym yn cydnabod bod camau gweithredu y mae arweinwyr deintyddol wedi dymuno mynd i'r afael â hwy ond sydd y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol. Mae cynnwys materion deintyddol mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn dal i fod yn anghyson - mae rhai Byrddau Iechyd yn disgrifio'n glir y camau i wella iechyd y geg / deintyddol a gwasanaethau cysylltiedig ond mae eraill nad ydynt prin yn crybwyll gwasanaethau deintyddol o gwbl. Mae Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd Geg yn parhau i fod yn elfen bwysig o gynlluniau integredig ac mae'n bwysig eu bod yn cynnwys ac yn ystyried asesiad o anghenion iechyd y geg lleol.
- Mae byrddau iechyd wedi cael adborth ar eu cynlluniau, ond mae rhai themâu sy'n deillio o nifer o adroddiadau yn cynnwys:
  - Er bod mynediad i ofal deintyddol y GIG wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ceir rhannau o Gymru lle mae mynediad yn dal i fod yn anodd a rhai lle mae wedi "llithro'n ôl". Mae gan Fyrddau Iechyd ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o sicrhau cynnydd pellach o ran gwella mynediad i wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG, gan gynnwys y defnydd llawn a phriodol o gyllidebau deintyddol er mwyn sicrhau'r gwerth gorau o ran ansawdd, effeithiolrwydd a thegwch yn sgil y buddsoddiad a wneir.
  - Caiff problemau mynediad eu gwaethygu gan y nifer fawr o gleifion sy'n parhau i gael archwiliadau traddodiadol bob 6 mis, pan fydd eu hanghenion iechyd y geg yn awgrymu y byddai'n fwy priodol iddynt fynychu bob 9 neu 12 mis. Yna gellir defnyddio unrhyw gapasiti sy'n cael ei ryddhau gan y tîm deintyddol i gynnig mynediad newydd; yn arbennig er mwyn sicrhau bod yr holl blant ifanc iawn yn gallu cael gafael ar ofal a chyngor deintyddol cyn iddynt gyrraedd blwydd oed.
  - Mae gan nifer o fyrddau iechyd restrau aros hir o ran darparu gofal arbennig yn yr ysbyty gan ddefnyddio anesthetig cyffredinol i bobl ag anghenion gofal arbennig (mwy na 26 wythnos).

## Edrych yn Ôl

10. Mae llawer iawn o arferion da ar waith ac ni all yr adroddiad hwn grynhoi'r ystod gyfan o fentrau a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ledled Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi cyfle i fyfyrion ar rai o'r prif gyflawniadau ac arferion da, a'u rhannu, er enghraifft:

## ***Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Data***

*Darperir data cryno a chlr i gefnogi darpariaeth a chanlyniadau darpariaeth Deintyddiaeth Gofal Arbennig, Rhaglen 1000 o Fywydau, Cynllun Gwên a datblygu llwybrau gofal newydd.*

## ***Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan - Llwybrau Triniaeth***

*Gwasanaeth brysbennu ar gyfer Anesthetig Cyffredinol i blant sydd nid yn unig wedi lleihau nifer y triniaethau o dan anesthetig cyffredinol ond sydd wedi sicrhau bod plant yn cael gofal priodol drwy'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol neu'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol.*

## ***Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Therapi Canser***

*Gweithio gydag arbenigwyr mewn therapi canser i sicrhau y darperir gofal a thriniaeth y geg cyn dechrau triniaeth canser. Defnyddio'r protocolau dilyn-i-fyny ar ôl triniaeth.*

## ***Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Cynllun Gwên***

*Ehangu'r rhaglen gan ganolbwyntio o'r newydd ar blant dan 3 oed a'u rhieni, gan ddefnyddio ymwelwyr iechyd i hwyluso hyn.*

## ***Bwrdd Iechyd Cwm Taf - Mân Lawdriniaethau ar y Geg***

*Trin cleifion yn yr uned triniaeth ddeintyddol yn hytrach nag yn yr ysbyty ac ymestyn y gwasanaeth hwn drwy ddefnyddio practisau gofal sylfaenol.*

## ***Bwrdd Iechyd Hywel Dda - Gweithio gyda Rhanddeiliaid***

*Mae arweinwyr clystyrau deintyddol dynodedig yn caniatáu i egwyddorion y cynllun lleol iechyd y geg gael eu hystyried gan y gwasanaethau gofal sylfaenol ehangach a sefydliadau'r trydydd sector a'u cymhathu i broses gynllunio tymor canolig y bwrdd iechyd.*

## ***Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - Mynediad Uniongyrchol***

*Mynediad Uniongyrchol wedi'i dreialu, ei werthuso a'i ymgorffori o fewn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol.*

## **Heriau yn y Dyfodol**

11. Rydym wedi cymryd camau breision ers i Gynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer iechyd y Geg gael ei gyhoeddi gyntaf, ond mae Cymru'n parhau i wynebu heriau i wella ymhellach iechyd y geg ei phoblogaeth a'r gwasanaethau deintyddol sy'n

gwasanaethu ein poblogaeth. Rydym wedi dechrau mynd i'r afael â'r rhain wrth weithio ar y Cynllun Cenedlaethol diwygiedig.

12. Yn gynharach eleni cyhoeddais *Symud Ymlaen i Wella Iechyd y Geg a Gwasanaethau Deintyddol yng Nghymru - Fframwaith yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer deintyddiaeth, ynghyd â rhaglen waith ar gyfer y dyfodol* sy'n nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella iechyd y geg a deintyddiaeth yng Nghymru yn y tymor byr i'r tymor canolig.

<http://gov.wales/topics/health/professionals/dental/publication/information/dental-health/?lang=cy>

Y tri maes allweddol ar gyfer gweithredu yw:

- i) Adolygu'r Cynllun Gwên;
- ii) Diwygio Contractau ac ehangu ffyrdd newydd o weithio o fewn gwasanaethau deintyddol cyffredinol mewn gofal sylfaenol; a
- iii) Gweithredu e-atgyfeiriadau cysylltedd.

## **Cynllun Gwên**

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru yn disgrifio'r diwygiadau i'r Cynllun Gwên (WHC 2017 rhif 23) a'r camau sydd eu hangen i adeiladu ar y llwyddiant hyd yma a symud y rhaglen o "dda i wych".

<http://extranet.wales.nhs.uk/howis/doclib/WHC%20D2S%20refocus%20-%20FINAL%2016.06.17.pdf>

## **Diwygio contractau**

Mae tîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, y proffesiwn deintyddol a chydweithwyr gofal sylfaenol mewn byrddau Iechyd i ddatblygu rhaglen diwygio contractau ar gyfer y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol. Mae cam cyntaf y gwaith yn tynnu at y terfyn ac mae bellach yn barod i gael ei 'brofi' o fis Medi 2017 ymlaen.

Mae llwyddiant y rhaglen hon yn mynnu bod byrddau Iechyd yn dewis practisau priodol sy'n gwirfoddoli i gydweithredu a chyd-gynhyrchu'r rhaglen. Rwyf wedi ysgrifennu at yr holl ffyrddau Iechyd i'w hannog i gymryd rhan yn y rhaglen diwygio contract.

## **Rhoi system gysylltedd ar waith ar gyfer e-atgyfeirio**

Bydd gwella cysylltedd a rhoi system rheoli atgyfeiriadau electronig ar waith mewn deintyddiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar lif gwaith deintyddion a darparu gofal arbenigol i gleifion ym mhob arbenigedd deintyddol yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae atgyfeiriadau yn cael eu gwneud ar bapur ac mae nifer o anfanteision yn gysylltiedig â hyn, gan gynnwys cymryd mwy o amser i brosesu atgyfeiriadau, anghysondeb yn yr wybodaeth atgyfeirio, costau uwch yn sgil postio, anhawster wrth olrhain

atgyfeiriadau, dealltwriaeth o amseroedd aros a gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaethau lleol.

Yn dilyn proses ddylunio wedi'i harwain yn glinigol gydag NWIS, fel rhan o broses gaffael lawn ac agored ar ran yr holl fyrddau iechyd, mae'r gwaith o ddatblygu manyleb ar gyfer system rheoli atgyfeiriadau deintyddol electronig i Gymru yn tynnu at y terfyn. Bydd y broses gaffael ffurfiol yn cychwyn ym mis Medi eleni. Y bwriad yw y bydd contract i ddarparu system rheoli atgyfeiriadau gwbl electronig wedi'i harwain yn glinigol yn cael ei ddyfarnu a'i roi ar waith yn 2018. Bydd y system yn defnyddio'r capasiti brysbennu presennol, a bydd yn gwella ansawdd yr atgyfeiriadau, yn lleihau'r llwyth gwaith gweinyddol a chlinigol mewn gofal eilaidd ac yn lleihau amserau aros ar gyfer triniaeth i gleifion. Bydd y system hefyd yn helpu i wella'r broses o olrhain atgyfeiriadau, gan sicrhau bod gan gleifion a chlinigwyr yr wybodaeth gywir am y gwasanaethau sydd ar gael, gan arwain at well teithiau a chanlyniadau i gleifion.

### **Materion ychwanegol o bwys**

Cyhoeddwyd **Gwella Iechyd y Geg ar gyfer Pobl Hŷn sy'n Byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru- WHC 2015 (01)** i gefnogi Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chartrefi gofal lleol er mwyn darparu hyfforddiant priodol i staff cartrefi gofal, yn ogystal â darparu cynlluniau gofal iechyd a gofal ar gyfer preswylwyr. Caiff y Cylchlythyr ei ategu gan gyllid rheolaidd a bydd yr ail adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Prif Swyddog Deintyddol.

### **Gwella capasiti ac ansawdd gofal i blant â phydredd dannedd**

Ein nod cyffredinol yng Nghymru yw sicrhau nad yw plant yn dioddef o bydredd dannedd, sy'n glefyd y gellir ei atal yn bennaf. Yn anffodus, mae ychydig dros draean o blant wedi'u heffeithio erbyn iddynt gyrraedd oedran ysgol. Effaith hyn yw bod gan ormod o blant yng Nghymru ddannedd pydredig annymunol yr olwg ac yn dioddef poen sy'n gallu arwain at amser o'r ysgol, colli cyfleoedd chwarae a nosweithiau digwsg. I lawer o blant gall hyn olygu bod yn rhaid iddynt gael anesthetig cyffredinol i dynnu dannedd. Er bod nifer y plant sy'n cael anesthetig cyffredinol er mwyn tynnu dannedd wedi lleihau'n sylweddol, ers cyhoeddi'r Cynllun Cenedlaethol yn 2013, rhoddwyd bron i 8000 o driniaethau dan anesthetig cyffredinol at y diben hwn yng Nghymru y llynedd. Mae modd lleihau hyn ymhellach ac yn gyflymach a chynnig dewis amgen o ran rheoli gofal.

Bydd y Cynllun Cenedlaethol diwygiedig yn cynnwys cynlluniau i gynyddu capasiti o ran amser clinigol arbenigol deintyddion pediatrig, arweinyddiaeth a chymorth er mwyn gwella gofal a thriniaeth yr holl blant y mae clefyd deintyddol yn effeithio arnynt yng Nghymru, beth bynnag yw'r lleoliad gofal.

**Ansawdd a diogelwch** - Mae gan Fyrddau Iechyd rôl allweddol o ran hybu ansawdd a diogelwch, a bydd y gweithgaredd yn cynnwys:

- Ymgysylltu â phroses arolygu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer practisau deintyddol y GIG a phractisau preifat; a defnyddio'r hyn a ddysgwyd



o'r arolygiadau hyn i ddylanwadu ar hyfforddiant timau deintyddol ac fel rhan o adolygiadau contract a chyswllt arall â phractisau.

- Mae'r Hunanasesiad Sicrwydd Ansawdd yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau er mwyn cefnogi practisau'n well i "wneud yr hyn sy'n iawn" ac adolygu ansawdd eu gwasanaethau'n rhagweithiol ac yn barhaus.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ystod eang o randdeiliaid i ddatblygu Cylchlythyr Iechyd newydd ar ymdrin â pherfformiad deintyddol sy'n achosi pryder.
- Byddwn yn cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd diwygiedig yn fuan i ddisgrifio'r ystod eang o systemau sicrwydd ansawdd a diogelwch sy'n cefnogi byrddau iechyd a gwasanaethau deintyddol yng Nghymru.

## **Casgliad**

13. Mae'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol hwn gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r cynnydd sylweddol a wnaed i gyflawni Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg. Wrth ddatblygu eu cynlluniau lleol iechyd y geg, rhaid i sefydliadau roi pwyslais ar gyflawni, gwelliannau a chanlyniadau.

## CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG (Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17

Mae'r Matrics Cyflawni hwn yn ategu Adroddiad Blynyddol 2016/17, gan roi gwybodaeth ac eglurder ynghylch y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg.

Mae'r Matrics hwn yn nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan yr holl randdeiliaid allweddol, sef:

- Byrddau Iechyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Deoniaeth Cymru - Adran Ddeintyddol
- Llywodraeth Cymru

Rhanddeiliaid unigol sy'n gyfrifol o hyd am gyflawni'r camau gweithredu ac mae'r ddogfen hon yn rhoi ciplun o dystiolaeth, sy'n cefnogi cyflawniadau a chynnydd yn ystod y cyfnod 2016/17 a lle y bo'n briodol, yn egluro'r camau nesaf.

	<b>Rhanddeiliaid - Camau Gweithredu y Cynllun Cenedlaethol</b>	<b>Dyddiad targed a nodwyd yn y Cynllun Cenedlaethol</b>	<b>Adolygiad 2016/17</b>
	<b>BYRDDAU IECHYD</b>		
1.	<p><b>Datblygu Cynllun Lleol ar gyfer Iechyd y Geg i ddiwallu anghenion Iechyd y Geg eu trigolion, a disgrifio'n glir sut y byddant yn sicrhau llywodraethu da wrth gomisiynu a darparu'r holl wasanaethau deintyddol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 18 a 39 (Cam Gweithredu Strategol).</p>		<p>Mae pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu a chyflwyno Cynllun Lleol cymeradwy ar gyfer Iechyd y Geg ac mae pob un wedi cyhoeddi'r rhain ar eu gwefannau.</p> <p>Rhaid i Fyrddau Iechyd fonitro ac adolygu eu Cynlluniau Lleol yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn blaenoriaethau a chyfyngiadau a fydd yn sail i ddiweddariad blynyddol. Dylid cyfeirio at y Cynlluniau Lleol mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a chynlluniau gofal sylfaenol eraill y sefydliad.</p> <p>Hoffai Llywodraeth Cymru weld cyfraniadau i'r cynlluniau gan unigolion sy'n arwain y gwaith ym mhob maes gweithredu perthnasol.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o ddulliau arloesol o ddarparu gwasanaeth ledled Cymru nad oes cyfeiriad atynt mewn rhai Cynlluniau Lleol ac mae'n credu bod hwn yn gyfle a gollwyd o ran rhannu arferion da.
2.	<p><b>Bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd weithio gyda deintyddion a'u timau, a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill i ddatblygu a chefnogi'r gwaith o gyflwyno Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol, Cam Gweithredu Strategol: tudalen 39).</p>	O 1 Ebrill 2013	<p>Mae'r holl Fyrddau Iechyd wedi dangos eu bod yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol deintyddol a rhanddeiliaid perthnasol ledled Cymru i ddatblygu eu cynlluniau. Fodd bynnag, mae natur a maint yr ymgysylltu yn amrywio ac yn amodol ar flaenoriaethau gweithredol y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Byddai Llywodraeth Cymru yn annog mwy o ffocws ar ymgysylltu â dinasyddion, gan weithio gyda darparwyr gofal sylfaenol eraill a, lle y bo'n briodol, sefydliadau'r Trydydd Sector. Mae rhai byrddau Iechyd yn ymgysylltu â chlystyrau gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod Iechyd y Geg yn rhan o'u hagenda, ond nid yw hyn wedi bwrw gwreiddiau yng Nghymru eto.</p>
3.	<p><b>Sicrhau cyfranogiad parhaus mewn rhaglenni hybu Iechyd y Geg cymunedol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn arbennig raglenni Cynllun Gwên ac Ysgolion Iach.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 30 a 40).</p>	Heb nodi	<p>Mae Cynllun Gwên wedi bwrw gwreiddiau ym mhob bwrdd Iechyd ac mae arolygon o Iechyd deintyddol plant yn dangos ei effaith. Mae lefelau clefydau deintyddol ymhlith plant yng Nghymru yn parhau i ostwng ar draws pob grŵp cymdeithasol. Mewn termau absoliwt, gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer yr achosion o bydredd (15%) a'r sgôr dmft cymedrig (0.6) yn y chwarter â'r amddifadedd mwyaf. Nid oes dystiolaeth bod anghydraddoldebau'n ehangu yma (cyfieithiad o ddyfyniad o Picture of Oral Health 2017: dental caries in 5 year olds 2015/2016): <a href="http://www.cardiff.ac.uk/cy/research/explore/research-units/welsh-oral-health-information-unit">http://www.cardiff.ac.uk/cy/research/explore/research-units/welsh-oral-health-information-unit</a></p> <p>Fodd bynnag, mae rhannau o Gymru lle nad yw Iechyd deintyddol plant wedi gwella a byddwn yn gweithio gyda'r byrddau Iechyd hynny i weld beth mwy y gellir ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Mae un bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredol i fynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno'r rhaglen Mae Dannedd Babi YN Bwysig i weithio ochr yn ochr â'r Cynllun Gwên.</p> <p>Cymerodd byrddau Iechyd ran yn symposiwm cyntaf y Cynllun Gwên ym mis Mawrth 2017.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			<p>Mae'r Cynllun Gwên wedi cael ei ddiweddarau yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru 2017 rhif 23 ac mae byrddau Iechyd eisoes yn cynllunio sut i gefnogi'r rhaglen wrth iddi symud o "dda i wych".</p>
4.	<p><b>Cydweithio â'r Rhwydweithiau Canser a'r Grŵp Cyngori Arbenigol Cenedlaethol ar Ganser y Pen a'r Gwddf er mwyn sicrhau y caiff safonau canser Cymru (2005) eu rhoi ar waith. Byddwn yn disgwyl i'r Byrddau Iechyd gydweithio i sicrhau bod gofal amlddisgyblaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i bob claf sydd â chanser y geg. Byddwn yn ceisio sicrwydd bod y Rhwydweithiau Canser yn mynd i'r afael ag unrhyw amrywiad a nodir o ran canlyniadau triniaethau.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 14 a 41).</p>	Heb nodi	<p>Mae'r wybodaeth a ddarparwyd ynglŷn â pherfformiad yn erbyn y safonau perthnasol ar gyfer canser y pen a'r gwddf a gweithio gyda'r Grŵp Cyngori Arbenigol Cenedlaethol yn parhau i fod yn amrywiol ar draws Byrddau Iechyd. Ceir adroddiadau am berfformiad da yn y rhan fwyaf o gynlluniau mewn perthynas â gwaith amlddisgyblaeth, ond mae achosion o broblemau recriwtio yn llesteirio darparu'r ystod lawn o wasanaethau mewn rhai ardaloedd.</p> <p>Mae patrwm parhaus o gyflwyno'n hwyr gyda chanser ceg. Mae cyfran uchel o gleifion yn cyflwyno ar gamau 3 a 4 ac mae'n amlwg nad yw'r camau gweithredu hyd yma wedi cael unrhyw effaith ar hyn. Bydd angen i'r Rhwydweithiau Clinigol a Reolir ymdrin â hyn fel blaenoriaeth.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

5.	<p><b>Defnyddio argymhellion y Cynllun Gweithredu Deintyddiaeth Gofal Arbennig er mwyn sicrhau y diwellir anghenion pob grŵp sy'n agored i niwed.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 15 a 41).</p>	Heb nodi	<p>Mae pob Cynllun Lleol yn dangos ymrwymiad i wella gwasanaethau ac wedi sefydlu Rhwydwaith Clinigol a Reolir ar gyfer Deintyddiaeth Gofal Arbennig. Mae byrddau iechyd unigol wedi datblygu ystod o wasanaethau, llwybrau ac arferion da arloesol a rhagorol wrth weithio mewn tîm. Fodd bynnag, gwelir ymrwymiad amrywiol o hyd i gyflawni'r camau gweithredu y cytunir arnynt gan y Rhwydweithiau hyn.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu newydd ar Ddeintyddiaeth Gofal Arbennig yn ddiweddarach yn 2017.</p>
6.	<p><b>Yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, casglu data ar nifer y plant sy'n cael triniaeth ddeintyddol o dan anesthetig cyffredinol bob blwyddyn.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalen 41).</p>	Bob blwyddyn	<p>Mae Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru (WOHIU) yn parhau i gasglu data perthnasol. Dangosodd yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016 y gwnaed cyfanswm o 7,908 o driniaethau deintyddol o dan anesthetig yng Nghymru yn ystod 2015-16: <a href="http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/69703">http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/69703</a></p> <p>Er bod nifer o Fyrddau Iechyd yn parhau i gael nifer fawr o atgyfeiriadau, mae eraill yn adrodd am waith rhagweithiol i leihau cyfraddau uchel.</p> <p>Bydd Fforwm Llywodraeth Cymru yn cael ei sefydlu i gynghori'r Prif Swyddog Deintyddol ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer rhoi tawelyddion ac anesthetig cyffredinol i bobl.</p>
7.	<p><b>Cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am restrau aros ar gyfer pobl sy'n agored i niwed y mae angen triniaeth ddeintyddol arnynt o dan anesthetig cyffredinol, a sicrhau nad yw cleifion yn aros yn hirach na chanllawiau Llywodraeth Cymru.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 30 a 41).</p>	Heb nodi	<p>Mae pob Cynllun Lleol yn dangos ymrwymiad i leihau amseroedd aros a chadw data cywir. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod rhestrau aros hir yn parhau mewn rhai ardaloedd a dangoswyd hyn mewn archwiliad Cymru gyfan o restrau aros am driniaeth dan anesthetig cyffredinol mewn Deintyddiaeth Gofal Arbennig yn 2015</p> <p>Mae'r Fforwm Deintyddiaeth Gofal Arbennig a'r Rhwydweithiau Clinigol a Reolir yn parhau i weithio i fynd i'r afael â'r mater hwn.</p> <p>Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu cynnydd ar y cam gweithredu hwn drwy gamau clir a mesuradwy wedi'u hategu gan ddata cryno.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

8.	<p><b>Rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd i ddatblygu llwybrau atgyfeirio a gofal y cytunir arnynt yn rhanbarthol a fydd yn hyrwyddo gofal effeithlon i'r claf a gwaith gwell ar draws y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau Deintyddol mewn Ysbytai .</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 31 a 41).</p>	Heb nodi	<p>Ceir adroddiadau ar gynnydd da o ran datblygu ystod eang o lwybrau gofal ac mae'r rhain wedi'u rhannu ledled Cymru. Mae atgyfeiriadau canolog, systemau brysbennu a chyfranogiad gwell mewn Rhwydweithiau Clinigol a Reolir wedi helpu i ailfodelu gwasanaethau mewn rhai Byrddau Iechyd. Fodd bynnag, ni chafodd llwybrau gofal eu mabwysiadu'n gyson ar draws y Rhwydweithiau a bydd un Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'r llwybr y cytunwyd arno, ond nid eraill.</p>
9.	<p><b>Gweithio gyda PGMDE i sicrhau bod timau deintyddol yn gallu cael gafael ar hyfforddiant ôl-radd o safon i ddiwallu anghenion addysgol ym maes canser y geg, gan gynnwys gwybodaeth am sefydliadau priodol yn y Trydydd Sector a gwefannau y gall cleifion eu defnyddio i gael cyngor a chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 13 a 43).</p>	Heb nodi	<p>Mae PGMDE yn parhau i ddarparu digwyddiadau addysgol ar ganser y geg, rhoi'r gorau i ysmegu, gwella ymarfer ac archwilio. Mae datblygu'r rhaglen ymarfer a'r grŵp gwella ansawdd yn cefnogi dull mwy "cydgysylltiedig" a chyson ledled Cymru.</p> <p>Mae cysylltiadau rhwng PGMDE/Byrddau Iechyd yn datblygu ac yn ddiweddar roeddent yn cynnwys trafodaeth am y newidiadau a ragwelir yn sgil sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru.</p>
10.	<p><b>Gweithio gyda PGMDE i sicrhau bod y camau deintyddol a gaiff eu cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco yn cael eu cymryd.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 13 a 43).</p>	Heb nodi	<p>Mae Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg yn parhau i ddangos ymrwymiad i'r Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco. Anogir Byrddau Iechyd i osod targedau ar gyfer hyfforddiant ymyrraeth a PGMDE i hyrwyddo argaeledd.</p> <p>Mae targed y Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco ar gyfer deintyddion yn atgyfeirio cleifion at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu wedi'i ddiweddarau yn unol â'r ymgyrch newydd ar gyfer Cymru gyfan "Helpa Fi i Stopio".</p>
11.	<p><b>Ystyried a chymryd rhan yn rhaglen 1000 o Fwydau a Mwy er mwyn Gwella Gofal y Geg i Oedolion sy'n Gleifion yn yr Ysbyty.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 16 a 43).</p>	Heb nodi	<p>Mae pob Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn y rhaglen hon, er - fel gyda meysydd rhaglenni eraill 1000 o Fwydau - ceir lleoliadau lle mae cyfranogiad yn gyfyngedig ac eraill lle y gwneir gwelliannau gwirioneddol.</p> <p>Ceir enghreifftiau da o fentrau hyfforddi staff ac addysgu cleifion, ac mae gwaith ar y gweill i gysoni egwyddorion gofal mewn ysbyty gyda'r egwyddorion ar gyfer gwella</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			iechyd y geg pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal.
12.	<p><b>Cynnwys materion yn ymwneud â gofal deintyddol sylfaenol fel rhan o'u proses adrodd flynyddol ar ofal sylfaenol, a'u cynnwys yn eu Datganiad Ansawdd Blynyddol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 22 a 43).</p>	Bob blwyddyn	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn 'Adroddiadau Ansawdd' ar gyfer y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (CDS) sy'n cyd-fynd â Datganiadau Ansawdd Blynyddol Byrddau Iechyd.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu ac yn asesu'r holl adroddiadau CDS ac wedi cyhoeddi crynodeb sy'n amlgu arferion da a rhai o'r heriau a nodwyd gan y CDS.</p> <p>Yn anffodus, ychydig iawn o Ddatganiadau Ansawdd Blynyddol gan fyrddau iechyd sy'n cynnwys arferion da mewn gofal iechyd y geg neu wasanaethau deintyddol.</p>
13.	<p><b>Gweithio gyda Phwyllgorau Deintyddol Lleol er mwyn adolygu'r cymorth galwedigaethol a ddarperir ganddynt a datblygu rhaglen iechyd galwedigaethol i bob aelod o'r tîm deintyddol mewn practis deintyddol cyffredinol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 36 a 44).</p>	Heb nodi	<p>Mae gan bob Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith. Mae rhai wedi gweithio gyda Phwyllgorau Deintyddol Lleol i ddarparu cefnogaeth gynhwysfawr sydd wedi symleiddio prosesau ac, mewn rhai achosion, wedi blaenoriaethu newydd-ddyfodiaid. Mae'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau yn aml yn anghyson er gwaethaf ymdrechion byrddau iechyd i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaethau a'u hyrwyddo.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro darpariaeth a dyraniadau ariannol pob rhaglen iechyd Galwedigaethau Byrddau Iechyd fel rhan o gyfarfodydd adolygu blynyddol Llywodraeth Cymru/Byrddau Iechyd.</p>
14.	<p><b>Cefnogi'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol i weithio gyda darparwyr addysgol i sicrhau mewnbwn cyson ar iechyd y geg sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bob cwrs nyrso cyn-gofrestru, ac i fynd i'r afael â hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 33 a 44).</p>	Heb nodi	<p>Mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd wedi sefydlu rhaglenni hyfforddi. Mae rhai systemau arbennig o dda ar waith ac mae adroddiadau Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg yn cynnwys data ar nifer y myfyrwyr sydd wedi cymryd rhan, cynllunio'r gweithlu a chanlyniadau gwerthuso.</p> <p>Gwnaed cynnydd da o ran gweithredu'r hyfforddiant nyrso Cymru gyfan ar iechyd y geg a gofal y geg i gleifion.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

15.	<p><b>Sicrhau bod grwpiau risg uchel yn cael eu targedu gan ymgyrchoedd cenedlaethol (e.e. mis Ymwybyddiaeth o Ganser y Geg a mis Gwenu Cenedlaethol).</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalen 13).</p>	Yn flynyddol - Mai a Tachwedd	<p>Mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd wedi cefnogi'r Ymgyrchoedd Cenedlaethol. Mae adroddiadau'n tynnu sylw at fentrau lleol da a gwaith rhagweithiol gyda rhanddeiliaid mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae ymweliadau â wardiau, stondinau hybu iechyd a chysylltiadau uniongyrchol â'r cyhoedd wedi cael eu cofnodi a'u hategu gan ddata yn y rhan fwyaf o adroddiadau.</p> <p>Eleni gwelwyd nifer o fentrau'n cael eu sefydlu - datblygwyd adnodd e-ddysgu ar ganser y geg ar gyfer clinigwyr yng Nghymru, cynhaliwyd digwyddiadau astudio ambroffesiwn a chynhyrchwyd ffeithluniau ar gyfer Canser y Geg.</p>
16.	<p><b>Mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector, sicrhau y caiff gofal y geg ei integreiddio yng nghynlluniau/llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol cleifion sydd â phroblemau meddygol a chymdeithasol cymhleth.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 15 a 45).</p>	Heb nodi	<p>Mae'r cam gweithredu hwn yn parhau i fod yn her i fyrddau iechyd, er bod cynnydd yn cael ei wneud drwy weithredu'r rhaglen i wella iechyd y geg pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Mae'r CDS yn gweithio'n gynyddol gyda'r Trydydd Sector i ddarparu hyfforddiant staff a gwybodaeth am wasanaethau lleol i bobl sy'n agored i niwed.</p> <p>Mae Byrddau Iechyd Lleol yn cymryd camau i ymgysylltu â Chlystyrau yn eu hardal leol ac mewn rhai achosion maent wedi recriwtio swyddog dynodedig at y diben hwn.</p>
17.	<p><b>Mae'n rhaid i gynlluniau hefyd gynnwys camau gweithredu penodol o ran rheoli contract presennol y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- gwella'r broses o fonitro contractau ac adolygu contractau'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol/Gwasanaethau Deintyddol Cyhoeddus sydd ag Unedau o Weithgarwch Deintyddol gwerth uchel;</li> <li>- sicrhau y cydymffurfir yn well â chanllawiau NICE ar gyfnodau adalw;</li> <li>- monitro'r broses o "rannu" cyrsiau triniaeth;</li> <li>- gweithio yn unol â Chanllawiau Dros Dro ar Orthodonteg y GIG ym maes Gofal Sylfaenol, yn arbennig yn ystod y broses o adnewyddu'r contract.</li> </ul>	Heb nodi	<p>Mae pob Cynllun Lleol yn dangos bod gwell trefniadau rheoli contractau ar waith bellach gyda Byrddau Iechyd yn gweithio gyda phractisau a Phwyllgorau Deintyddol Lleol i fonitro perfformiad a rheoli'r broses o'i wella. Mae monitro contractau yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar "gyrraedd targedau Unedau Gweithgarwch Deintyddol" a hoffai Llywodraeth Cymru weld mwy o ffocws ar nifer y cleifion a welir, eu hanghenion a'u canlyniadau, ac ansawdd a diogelwch.</p> <p>Mae defnyddio canllawiau NICE ar gyfnodau adalw yn parhau i fod yn her gyda llawer o gleifion yn mynychu'n amlach nag sy'n glingiol angenrheidiol.</p> <p>Mae byrddau iechyd wedi cyfrannu at yr adolygiad 111 o ddarpariaeth gofal deintyddol brys ac rydym am weld hyn yn cael ei adlewyrchu mewn Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg yn y dyfodol.</p>



**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

	(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 21 a 45).		<p>Dylid annog practisau sydd ag Unedau Gweithgarwch Deintyddol gwerth uchel i ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr i adlewyrchu eu contract.</p> <p>Bydd gweithredu'r broses o ddiwygio contractau yn cynorthwyo practisau i asesu anghenion a risgiau cleifion, i ddarparu gofal ataliol, cynyddu'r defnydd o gymysgedd sgiliau mewn deintyddiaeth a chynyddu mynediad i bobl ag anghenion dybryd.</p>
18.	<p><b>Defnyddio canllawiau Cymdeithas Iechyd Deintyddol Prydain (BSDH) i ddatblygu cynlluniau ar gyfer gofal cartref.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 27 a 45).</p>	Heb nodi	<p>Mae pob Cynllun Lleol yn cydnabod canllawiau BSDH ac yn dweud eu bod yn cael eu defnyddio.</p> <p>Ceir tystiolaeth o ddatblygu llwybrau newydd ar gyfer gofal cartref ac mae offer newydd yn cael ei brynu lle bo angen er mwyn hwyluso'r broses o wella gwasanaethau. Mae gwasanaethau'n cael eu cynnig drwy gyflenwyr gofal cartref GDS a CDS ac mae Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol hefyd yn cael eu defnyddio i hwyluso gofal drwy well cymysgedd sgiliau.</p>
19.	<p><b>Datblygu patrymau gofal amgen e.e. cynyddu nifer y gwasanaethau pediatrig deintyddol arbenigol a'r gweithlu Deintyddion â Sgiliau Estynedig ym maes pediatreg ddeintyddol (Deintyddion â Diddordeb Arbennig gynt), a meithrin gallu triniaethau amgen fel llonyddu lle y bo'n ymarferol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 30 a 45).</p>	Heb nodi	<p>Gwnaed peth cynnydd da yn y maes hwn o ran datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol arbenigol ar gyfer llawdriniaeth ar y geg ac endodonteg. Fodd bynnag, mae gwasanaethau pediatrig yn parhau i fod yn anghyson ac mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu Fforwm Cynghori Strategol ar ddeintyddiaeth bediatrig i gynghori'r Prif Swyddog Deintyddol ar sut i fynd i'r afael â hyn.</p> <p>Mae'r defnydd o Weithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol a mynediad uniongyrchol wedi'u datblygu'n dda yn y CDS, a bydd diwygio contractau yn cyflwyno cyfleoedd i wneud gwell defnydd o gymysgedd sgiliau yn y GDS.</p>
20.	<p><b>Datblygu cynlluniau clir sy'n dangos sut y bydd trigolion yn cael gafael ar wasanaethau deintyddol arbenigol ym maes Gofal Sylfaenol (arbenigwyr/Deintyddion â Sgiliau Estynedig), y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a/neu ofal eilaidd, a sicrhau dull integredig o ddarparu'r gwasanaethau hyn.</b></p>	Heb nodi	<p>Mae gwasanaethau gofal sylfaenol Mân Lawdriniaethau ar y Geg a systemau atgyfeirio canolog yn cael eu cyflwyno ynghyd â chyfleusterau i ddarparu gofal i geifion bariatrig a chleifion gorbryderus. Mae Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol yn cael eu defnyddio'n rhagweithiol i gynorthwyo'r ddarpariaeth. Mae Rhwydweithiau Clinigol a Reolir wedi datblygu llwybrau gofal.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

	(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 31 a 45).		
	<b>PGMDE</b>		Mae PGMDE yn darparu adroddiad i gadarnhau'r cymorth a ddarparwyd/cymorth parhaus i'r proffesiwn deintyddol o ran bwrw ymlaen â'r camau gweithredu a amlinellir yn y Cynllun Cenedlaethol.
21.	<b>Comisiynu, datblygu a chyflwyno rhaglenni addysg a hyfforddiant i gefnogi'r broses o gyflwyno Cynlluniau Lleol ar gyfer lechyd y Geg yn briodol.</b>  (Cynllun Cenedlaethol, Cam Gweithredu Strategol: tudalen 39).	O 1 Ebrill 2013	<p>Mae presenoldeb cyson y Cyfarwyddwr/Dirprwy Gyfarwyddwr yng Ngrŵp Gweithredol y Bwrdd lechyd gan yn ystod 2016/17 wedi rhoi'r cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am raglenni DPP/hyfforddi/Archwilio newydd a rhaglenni presennol.</p> <p>Mae Deoniaeth Cymru hefyd wedi cael ei chynrychioli ym mhob Grŵp Cyngori lechyd Meddwl Lleol Byrddau lechyd i sicrhau gwell cyfathrebu a dealltwriaeth o anghenion addysg a hyfforddiant lleol y gellir eu defnyddio wedyn fel sail i lywio datblygiad pob rhaglen hyfforddi newydd yn y dyfodol.</p>
22.	<b>Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r prosesau archwilio ymhellach ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol.</b>  (Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 32 a 42).	Heb nodi	<p>Mae datblygu archwiliad ar gyfer Gweithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol bellach yn rhan greiddiol o raglen gwella ymarfer y Ddeoniaeth.</p> <p>Mae tiwtoriaid Gwella Ansawdd yn parhau i geisio chwilio am Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol i gymryd rhan yn yr Archwiliad i sicrhau eu bod yn cyfrannu at yr archwiliad fel rhan o'r tîm ac y gallant hefyd arwain ar archwiliadau o bractisau.</p> <p>Mae'r 'llawlyfr' archwilio presennol wedi'i addasu a'i gyfuno â'r Fframwaith Gwella Ansawdd ar gyfer timau deintyddol. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella defnyddioldeb ac yn cynyddu'r nifer fydd yn manteisio ar y ddogfen hon a'r archwiliadau a gynhwysir ynddi.</p> <p>Mae tua 55% o bractisau deintyddol yng Nghymru wedi cychwyn ar broses archwilio HTM. Bydd y Ddeoniaeth yn gweithio gyda Byrddau lechyd a phartneriaid eraill i annog mwy o gyfranogiad.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

32.	<p><b>Gweithio gyda rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau gwella cydnabyddedig gan dimau deintyddol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalen 43).</p>	Heb nodi	<p>Yn ystod 2016 mae'r Ddeoniaeth wedi gweithio'n rhagweithiol gyda deintyddion Sylfaen a Hyfforddeion Craidd Deintyddol.</p> <p>Mae'r holl Ddeintyddion Sylfaen wedi cwblhau'r cwrs IQT lefel efydd ac yn datblygu prosiectau Gwella Ansawdd fel rhan o'r broses gwblhau foddhaol. Mynychodd wyth o diwtoriaid ôl-radd hyfforddiant IQT lefel arian.</p> <p>Mae'r Ddeoniaeth wedi penodi hwylusydd Hyfforddiant Sgiliau Gwella Ansawdd (QIST) a fydd yn gweithio gyda 1000 o Fywydau a Mwy er mwyn datblygu strategaeth a dyfarniad a fydd yn berthnasol i bersonél gofal deintyddol sylfaenol. Yn ogystal, bydd yr Adran Ddeintyddol (fel rhan o weithredu'r adolygiad DPP annibynnol) yn hwyluso datblygu cyfran uwch o weithgareddau Gwella Ansawdd fel rhan o'r rhaglen DPP barhaus a gyflwynir yn ymarferol ac mewn Cysiau Ôl-radd.</p>
24.	<p><b>Cefnogi'r proffesiwn deintyddol i wella dulliau presgripsiynu cyffuriau gwrthficrobaidd mewn practisau deintyddol cyffredinol drwy ddefnyddio archwiliad sy'n seiliedig ar arferion 1000 o Fywydau a Mwy, a'r defnydd dilynol o ddulliau gwella cydnabyddedig.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 32 a 43).</p>	Heb nodi	<p>Mae'r archwiliad gwrthficrobaidd yn parhau i fod yn offeryn pwysig o ran lleihau'r defnydd amhriodol o wrthfotigau yng Nghymru. O fis Mawrth 2016-Ionawr 2017, cychwynnodd 27 o bractisau deintyddol yr archwiliad, ac roedd 85% ohonynt wedi cwblhau'r broses.</p> <p>Ers 2012, mae ychydig dros draean o ddeintyddion sy'n gweithio yn y GDS yng Nghymru wedi cymryd rhan yn y broses hon gyda chyfradd gwblhau o 65%. Nawr bydd y Ddeoniaeth yn gweithio gyda Byrddau Iechyd a phartneriaid eraill i annog mwy o gyfranogiad yn y broses hon.</p>
25.	<p><b>Parhau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o 'Ddeintyddiaeth y Matrics Aeddfedwydd' mewn Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru, yn arbennig ar gyfer practisau lle nodwyd pryderon o ran perfformiad.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 34 a 42).</p>	Heb nodi	<p>Mae'r Matrics Aeddfedwydd yn parhau i fod yn offeryn pwysig o ran gwella perfformiad ac ansawdd yn y GDS.</p> <p>O fis Mawrth 2016 tan fis Ion 2017 cynhaliodd cyfanswm o 11 o bractisau (88 o gyfranogwyr) wedi cynnal proses Matrics Aeddfedwydd. Ers 2013 mae cyfanswm o 365 o bersonél deintyddol (60 practis) wedi cymryd rhan. Mae'r Ddeoniaeth yn parhau i farchnata'r rhaglen hon yn weithredol er mwyn cynyddu cyfranogiad.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'u protocolau monitro fel rhan o'i chyfarfodydd rheolaidd gyda PGMDE.
	<b>IECHYD CYHOEDDUS CYMRU</b>		<p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llunio adroddiad i gadarnhau'r cymorth a ddarparwyd/cymorth parhaus i'r proffesiwn deintyddol o ran bwrw ymlaen â'r camau gweithredu a amlinellir yn y Cynllun Cenedlaethol.</p> <p>Ceir trosolwg hefyd yng nghramau gweithredu 26 a 27 isod.</p>
26.	<p><b>Darperir gwybodaeth a chynghor arbenigol i lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol, Cam Gweithredu Strategol: tudalen 39).</p>	O 1 Ebrill 2013	<p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i sefydlu rôl arweinyddiaeth genedlaethol i roi cynghor a chymorth i Fyrddau Iechyd wrth gyflwyno eu Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg sy'n cynnwys Rhwydweithiau Clinigol a Reolir mewn Orthodonteg a Deintyddiaeth Gofal Arbennig.</p> <p>Mae Uned Gwybodaeth Iechyd y Geg Cymru hefyd yn parhau i ddarparu gwybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani gan fyrddau Iechyd i gefnogi eu hasesiad o anghenion a'u gwaith cynllunio.</p> <p>Yn ystod 2016/17, rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyngor a chefnogaeth arbenigol i:</p> <p>Llywodraeth Cymru; Addysg Ddeintyddol a Meddygol Ôl-raddedig; Fforwm Cynghori Strategol Cenedlaethol mewn Orthodonteg; Pwyllgor Deintyddol Cymru; ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.</p> <p>Mae'r cynghor arbenigol hwn wedi helpu i ddatblygu Gofal Iechyd Darbodus mewn deintyddiaeth er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth orthodonteg a dylanwadu ar gyd-destun arolygiadau o bractisau deintyddol.</p> <p>Mae dadansoddiad o'r wybodaeth ar bydredd dannedd ac adroddiadau a gynhyrchwyd gan Anestheteg Cyffredinol ar bydredd dannedd a chanlyniadau,</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			<p>ynghyd â gwaith a wnaed gyda thimau Ymwelwyr iechyd a Dechrau'n Deg, wedi cyfrannu at y broses o adolygu'r Rhaglen Cynllun Gwên. Mae'r gwaith o ddatblygu hyn o fewn cynlluniau iechyd y geg lleol eisoes wedi dechrau.</p> <p>Mewn cydweithrediad ag Uned Deallusrwydd Canser Cymru, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ffeithlun ar ganser y geg yn ystod Mis Gweithredu ar Ganser y Geg (Tach 2016), a amlygodd gynnydd yn nifer yr achosion o ganser y geg yng Nghymru a'r heriau sy'n gysylltiedig â diagnosis hwyr. Cafodd y ffeithlun ei ddosbarthu'n eang i'r holl randdeiliad yng Nghymru, gan gynnwys Byrddau Iechyd a Chlystyrau Gofal Sylfaenol.</p> <p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cynnal dau ddigwyddiad a ddaeth â'r holl Gynghorwyr Ymarfer Deintyddol a rhanddeiliaid deintyddol eraill ynghyd i drafod Gwella Ansawdd a Diogelwch yn y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, i rannu Arferion Gorau ac i drafod cyfleoedd a heriau.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi dull gweithredu rhagweithiol Iechyd Cyhoeddus Cymru o gynhyrchu adroddiadau, cynnal ymgyrchoedd ataliol cenedlaethol a chefnogi byrddau iechyd i ddatblygu eu Cynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg.</p>
27.	<p><b>Parhau i wella'r Hunanasesiad Sicrwydd Ansawdd i gynnwys ymhellach y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd mewn Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 32 a 42).</p>	Heb nodi	<p>Mae'r Hunanasesiad Sicrwydd Ansawdd ar gyfer Practisau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru wedi'i mapio yn unol â rhaglen Arolygu Practisau Deintyddol Gofal Iechyd Cymru a'r 'llyfr gwaith'.</p> <p>Gan ddefnyddio cyngor arbenigol perthnasol, cafodd yr adrannau ar ddefnyddio tawelyddion a gofal cartref y System Sicrwydd Ansawdd eu hadolygu yn unol ag arferion gorau cyfredol.</p> <p>Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Deintyddol, Byrddau Iechyd a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod yr Hunanasesiad Sicrwydd Ansawdd yn cael ei wella'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn dda â'r cyfeiriad polisi strategol ar Sicrwydd Ansawdd, Gwella Ansawdd a'r disgwyliadau o ran diwygio contractau.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

	<b>LLYWODRAETH CYMRU</b>		Ceir trosolwg o gynnydd, o ran bwrw ymlaen â chamau gweithredu Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn y Cynllun Cenedlaethol, yng nghamau gweithredu 28 i 44 isod.
28.	<b>Darparu arweinyddiaeth strategol drwy ddatblygu cyfres o ddangosyddion canlyniadau allweddol a mesurau perfformiad i gefnogi Cynlluniau Lleol Byrddau Iechyd ar gyfer Iechyd y Geg.</b>  (Cynllun Cenedlaethol, Cam Gweithredu Strategol: tudalen 39).	Hydref 2013	Canllawiau a roddwyd i Fyrddau Iechyd ym mis Mehefin 2013. Caiff y Canllawiau eu hadolygu er mwyn helpu i gyflawni'r Cynlluniau Lleol yn y dyfodol.  Yn gyffredinol, mae adborth ysgrifenedig a llafar i sefydliadau wedi arwain at adroddiadau ag iddynt fwy o ffocws ar ganlyniadau a chydabyddiaeth o broblemau sy'n parhau. Mae Llywodraeth Cymru yn trafod materion sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cenedlaethol a Chynlluniau Lleol ar gyfer Iechyd y Geg yn ei chyfarfod blynyddol ffurfiol gyda byrddau Iechyd ac yng ngrŵp deintyddol byrddau Iechyd Cymru gyfan.
29.	<b>Cyhoeddi adroddiad Cymru gyfan blynyddol yn seiliedig ar adroddiadau Byrddau Iechyd yn erbyn dangosyddion canlyniadau allweddol a mesurau perfformiad.</b>  (Cynllun Cenedlaethol, Cam Gweithredu Strategol: tudalen 39).	Cyhoeddwy d adroddiad gwaelodlin ym mis Ebrill 2014, a phob blwyddyn wedi hynny	Cyhoeddir adroddiad blynyddol gan Lywodraeth Cymru drwy gydol oes y Cynllun Cenedlaethol o 2013 i 2018.
30.	<b>Rhoi cymorth strategol i ymgyrchoedd ataliol cenedlaethol e.e. yn ystod Mis Ymwybyddiaeth o Ganser y Geg a Mis Gwenu Cenedlaethol.</b>  (Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 13 a 40).	Heb nodi	Rhodddwyd sylw i Fis Gweithredu Canser y Geg Tachwedd 2016: <ul style="list-style-type: none"> <li>• drwy roi gwybodaeth am yr ymgyrch ar wefan y Prif Swyddog Deintyddol;</li> <li>• darparodd y Prif Swyddog Meddygol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gymorth o ran y cyfryngau;</li> <li>• rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth i ddatblygu'r adnodd e-ddysgu;</li> <li>• cysylltwyd â rhanddeiliaid ym maes Iechyd y cyhoedd, fferyllfa gymunedol a gofal sylfaenol i ddarparu cyngor/taflenni/posteri a'r ffeithlun Canser y Geg.</li> </ul> <p>Er mwyn tynnu sylw at Wythnos/Mis Cenedlaethol Gwên (Mai/Mehefin 2016) gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i ddarparu cymorth</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			priodol i sefydliadau a chyda chyhoeddusrwydd.
31.	<p><b>Cyhoeddi rhifyn i Gymru o "<i>Delivering Better Oral Health (DBOH)</i>", sef "Sicrhau Gwell Iechyd y Geg", gyda chysylltiadau penodol â rhaglen Cynllun Gwên.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 26 a 40).</p>	2013	<p>Mae <a href="#">argraffiad 3 DBOH</a> ar gael ar wefan y Cynllun Gwên. Anfonwyd copïau caled at bob practis deintyddol yng Nghymru a'r CDS, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynyddu pwysigrwydd defnyddio'r sylfaen dystiolaeth wrth ddarparu gofal i gleifion. Mae'r defnydd o farnais fflworid mewn ymarfer deintyddol ar gynydd, er bod data'n dangos bod cyfran y plant a gofnodwyd fel rhai sy'n cael farnais fflworid yn parhau i fod yn isel iawn.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

32.	<p><b>Parhau i dreialu systemau sy'n symud i ffwrdd o'r system bresennol o roi cydnabyddiaeth a darparu, tuag at fodel sy'n canolbwyntio ar atal, asesu risg a gofal wedi'i deilwra i gleifion.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 23 a 40).</p>	Heb nodi	<p>Rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2015 treialodd Llywodraeth Cymru systemau talu amgen i ddeintyddion yn ogystal â dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG. Cwblhawyd y cyfnod peilot hwn yn 2015. Mae dau bractis prototeip yn BIP ABM yn parhau i brofi ffyrdd newydd o weithio sy'n helpu i lywio'r rhaglen diwygio contractau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r practisau prototeip yn defnyddio dull llwybr cleifion sy'n canolbwyntio ar atal. Mae'r prototeip yn caniatáu defnyddio cymysgedd o ofal preifat a gofal y GIG.</li> <li>• Nod y prototeip yw sicrhau nad yw grwpiau sy'n agored i niwed yn dioddef anfantais ac mae dull newydd o bennu tâl yn cefnogi ac yn annog ymarfer clinigol da a mynediad i wasanaethau'r GIG.</li> </ul> <p>Mae'r prototeipiau'n cael eu gwerthuso gan Grŵp Monitro Prototeip Deintyddol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.</p> <p>Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon wedi cymeradwyo'r rhaglen diwygio contractau ac fe'i disgrifir yn <i>Symud ymlaen i wella iechyd y geg a gwasanaethau deintyddol yng Nghymru</i> - Fframwaith sy'n amlinellu blaenoriaethau ar gyfer deintyddiaeth a rhaglen waith ar gyfer y dyfodol:  <a href="http://gov.wales/topics/health/professionals/dental/publication/information/dental-health/?lang=cy">http://gov.wales/topics/health/professionals/dental/publication/information/dental-health/?lang=cy</a></p> <p>Mae byrddau iechyd a charfan fach o bractisau deintyddol yn ymwneud â'r broses o ddiwygio contractau i brofi'r egwyddorion. Bydd cleifion yn cael asesiad o'u hanghenion iechyd y geg/deintyddol ac asesiad risg unigol. Mae Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Deintyddol a Rheolwr Prosiect yn arwain y gwaith hwn.</p>
-----	--	----------	---



**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

33.	<p><b>Gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ystyried tystiolaeth ar sgrinio deintyddol, adolygu'r rhaglen sgrinio bresennol mewn ysgolion yng Nghymru, a diweddarau cyngor i'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 25 a 40).</p>	Heb nodi	<p>Cwblhawyd y cam hwn ym mis Chwefror 2014.</p> <p>Yn sgil adolygu'r Cynllun Gwên, cyhoeddir protocol sgrinio wedi'i ddiweddarau a fydd yn dileu'r angen i'r CDS ymgymryd ag unrhyw waith sgrinio rheolaidd mewn ysgolion.</p>
43.	<p><b>Gweithio gyda Byrddau Iechyd i wella'r data ar wybodaeth y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion yr holl randdeiliaid, ei fod yn gyson â'r Datganiad Ansawdd Blynnyddol ac yn cynnwys yr angen i gasglu data electronig.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 25 a 41).</p>	Heb nodi	<p>Mae'r cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau.</p> <p>Fodd bynnag, mae cynlluniau ar y gweill i'r CDS yng Nghymru ddefnyddio FP17W pwrpasol. Caiff hyn ei ddatblygu a'i brofi yn ystod 2017/18. Fe'i gweithredir ar draws Cymru pan fydd Gwasanaeth Deintyddol y GIG yn cyflwyno system FP17 newydd ar y we. Fe'i trafodwyd gyda Chyfarwyddwyr Clinigol CDS a Phwyllgor Deintyddion Cymunedol Cymru Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Ni fydd hyn yn cael ei gyflwyno cyn 2019.</p>
35.	<p><b>Cynnal adolygiad o gontract orthodonteg y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ar y cyd â chydweithwyr yn Lloegr.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 29 a 40).</p>	2016	<p>Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal dau ymchwiliad i wasanaethau orthodonteg - y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn 2010 a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2014. Derbyniwyd argymhellion yr ymchwiliad olaf ac maent yn adlewyrchu cyfeiriad polisi presennol Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o ddarpariaeth orthodonteg yng Nghymru yn 2010. Mae adolygiad arall a gwblhawyd ym mis Chwefror 2015 yn darparu tystiolaeth bod arweiniad cryfach gan Lywodraeth Cymru wedi cael effaith gadarnhaol o ran gwella effeithlonrwydd yn y system bresennol. Mae'r adolygiad yn cydnabod bod arbedion effeithlonrwydd o hyd a gellir gwneud mwy i wella ansawdd a phrydlondeb atgyfeiriadau a chyflwyno adroddiadau data. Rhaid i Fyrdau Iechyd fabwysiadu dull gweithredu mwy cadarn os na fydd contractwyr yn bodloni'r gofynion adrodd. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi bod yr adnoddau orthodonteg sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol ar gyfer carfan flynyddol o blant 12 oed. Fodd bynnag, mae aneffeithlonrwydd yn y gorffennol wedi arwain at oedi wrth gynnal asesiadau a darparu triniaeth orthodontig ac mae angen gwneud rhagor o waith i wella hylifedd y</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			<p>ddarpariaeth rhwng ymarferwyr a gwasanaethau cymunedol ac ysbytai.</p> <p>Ym mis Hydref 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau wedi'u diweddarau ar ddarparu gwasanaethau orthodonteg mewn gofal sylfaenol i gefnogi Byrddau Iechyd a darparwyr orthodonteg i barhau i ddarparu gwasanaethau mwy effeithiol drwy brosesau cynllunio a rheoli gwell.</p>
36.	<p><b>Datblygu a chyhoeddi data ar nifer y plant sy'n cael triniaeth ddeintyddol o dan anesthetig cyffredinol bob blwyddyn.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 30 a 40).</p>	Bob blwyddyn	<p>Mae adroddiadau ar Anesthetig Cyffredinol bellach yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn gan WOHU. (gweler cam gweithredu rhif 6).</p> <p>Mae'r data yn dangos gostyngiad yn nifer y plant sy'n cael triniaeth o dan anesthetig cyffredinol, yn enwedig ym mwrdd iechyd AB lle mae'r CDS wedi cyflwyno system brysennu a gofal ar gyfer plant sy'n cael eu hatgyfeirio i gael triniaeth o dan anesthetig cyffredinol. Fodd bynnag, mae bron i 8000 o blant yng Nghymru yn cael anesthetig cyffredinol i dynnu dannedd ac mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn (gweler cam gweithredu rhif 6).</p>
37.	<p><b>Gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu a chyflwyno proses arfarnu ar gyfer monitro gofal deintyddol sylfaenol yn annibynnol. Bydd Byrddau Iechyd mewn sefyllfa i gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau yn eu Datganiad Ansawdd Blynnyddol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 33 a 42).</p>	Erbyn Hydref 2013	<p>Cymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gyfrifoldeb am arolygu'r holl bractisau deintyddol o fis Awst 2014 ymlaen. Roedd AGIC yn bwriadu arolygu pob practis yng Nghymru yn ystod y cylch 3 blynedd cyntaf. Fodd bynnag, mae'r amserlen hon wedi bod yn heriol ac mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cytuno i ymestyn hyn i 4 blynedd. Caiff y broses arolygu practisau ei hadolygu'n llawn unwaith ar ôl i bob practis gael ei arolygu yn ystod y cylch presennol. Cefnogir y broses gan grŵp adolygu rhanddeiliaid effeithiol ac mae AGIC yn cyhoeddi ystod eang o wybodaeth ar ei gwefan - gan gynnwys adroddiad blynnyddol ar eu harchwiliadau o bractisau deintyddol. Mae tueddiadau a themâu wedi'u nodi a'u defnyddio i gefnogi datblygiad gweithlu tîm deintyddol drwy ddiwrnodau astudio a gwybodaeth ysgrifenedig. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys rhestr wirio radiograffig a holiadur adborth i gleifion.</p> <p>Mae'r Hunanasesiad Sicrwydd Ansawdd blynnyddol wedi bwrw gwreiddiau'n dda ac mae'n rhan bwysig o'r fframwaith sicrwydd deintyddol yng Nghymru. Caiff ei diwygio'n llawn yn ystod 2017 i ddarparu asesiad mwy manwl gywir o arfer da a'r meysydd lle mae angen gwella arferion deintyddol.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			<p>Daeth Rheoliadau Newydd ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yng Nghymru i rym ar 1 Ebrill 2017.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag AGIC i sicrhau bod y system arolygu ymarfer mor effeithiol â phosibl.</p>
38.	<p><b>Cyflwyno fframwaith ansawdd i feincnodi effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rhaglenni Cynllun Gwên unigol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 26 a 42).</p>	Heb nodi	<p>Mae pob CDS wedi defnyddio'r Fframwaith Ansawdd y cytunwyd arno i ddarparu sicrwydd ac wedi adrodd ar y canfyddiadau i'r Prif Swyddog Deintyddol.</p> <p>Mae'r Fframwaith Ansawdd wedi'i integreiddio i'r Cynllun Gwên diwygiedig.</p>
39.	<p><b>Gweithio gyda'r proffesiwn deintyddol i ddatblygu archwiliad o gydymffurfiaeth â gofynion hanfodol HTM 01-05 ar gyfer pob practis deintyddol yng Nghymru a'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 34 a 42).</p>	Yn 2013/14	<p>Cyhoeddwyd fersiwn derfynol HTM 01-05 ym mis Chwefror 2014. Datblygwyd a phrofwyd archwiliad o HTM 01-05 gan grŵp amlddisgyblaeth. Cyhoeddwyd hwn gan PGMDE ym mis Mawrth 2014. Cafodd yr archwiliad ei goresawu gan dimau deintyddol a'i ddefnyddio'n eang. Mae ar gael drwy system CAPR y Ddeoniaeth, y System Sicrwydd Ansawdd ac mae prosesau arolygu AGIC yn hyrwyddo ei ddefnydd.</p>
40.	<p><b>Gweithio gyda PGMDE a rhanddeiliaid i fynd i'r afael â holl Gamau Gweithredu'r Cynllun Cyflawni Ansawdd sy'n berthnasol i dimau deintyddol.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 32 a 42).</p>	Heb nodi	<p>Mae'r cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau.</p> <p>Roedd timau deintyddol yn ymgysylltu'n llawn â'r Cynllun Cyflawni Ansawdd, gan gynnwys hyfforddiant lefel Efydd ac Arian a defnydd o'r Canllawiau Gwella Ansawdd pwrpasol ar gyfer timau deintyddol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynllun Cyflawni Ansawdd newydd yn dilyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016.</p>
41.	<p><b>Gweithio gyda'r proffesiwn deintyddol a rhanddeiliaid eraill i ailystyried y rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 37 a 42).</p>	Heb nodi	<p>Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat newydd (Cymru) i rym ar 1 Ebrill 2017: <a href="http://www.legislation.gov.uk/2017?title=Private%20dentistry%20regulations">http://www.legislation.gov.uk/2017?title=Private%20dentistry%20regulations</a></p> <p>Rhaid i bractisau sy'n darparu unrhyw wasanaethau deintyddol preifat (gan gynnwys</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

			<p>practisau mynediad uniongyrchol preifat) gofrestru gydag AGIC er mwyn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Mae AGIC wedi cyhoeddi canllawiau ar y broses ymgeisio.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar fodloni agweddau ansawdd a diogelwch y Rheoliadau newydd: <a href="http://gov.wales/topics/health/professionals/dental/publication/information/regulation/?lang=cy">http://gov.wales/topics/health/professionals/dental/publication/information/regulation/?lang=cy</a></p>
42.	<p><b>Defnyddio'r cynllun peilot ar gysylltedd ac e-bost y GIG mewn practisau deintyddol cyffredinol i ddatblygu TGCh mewn deintyddiaeth ymhellach.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 35 a 42).</p>	Heb nodi	<p>Drwy weithio gydag NWIS, cynigiwyd cysylltedd e-bost y GIG i holl bractisau'r GIG yng Nghymru yn 2015. Mae oddeutu 75% wedi manteisio ar hyn, ond mae'r system wedi bod yn anymarferol ac erbyn hyn, anaml y caiff ei defnyddio.</p> <p>Cafodd y cynlluniau gwreiddiol i gyflwyno system E-atgyfeirio eu hoedi droeon.</p> <p>Mae gwaith pellach gydag NWIS wedi arwain at adolygiad llawn o'r cynlluniau a bydd system newydd ar gyfer e-atgyfeirio yn cael ei datblygu yn ystod 2017/18. Bydd yn seiliedig ar system sefydledig a ddefnyddir yn Lloegr.</p>
43.	<p><b>Gweithio gyda rhanddeiliaid i annog pob practis Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yng Nghymru i drosglwyddo data/hawliadau yn electronig.</b></p> <p>(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 35 a 42).</p>	Heb nodi	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i annog Byrddau Iechyd a Phractisau Deintyddol Cyffredinol i drosglwyddo data'n electronig a defnyddio porth Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.</p>
44.	<p><b>Trafod bylchau yn y sail dystiolaeth sy'n gysylltiedig â gofal deintyddol sylfaenol gyda phartneriaid academiaidd a'r proffesiwn, er mwyn nodi blaenoriaethau a sut y gellir annog ymarferwyr gofal sylfaenol i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil a'r broses o ddatblygu gwasanaethau.</b></p>	Heb nodi	<p>Cynhelir cyfarfodydd misol gyda Deon yr Ysgol Ddeintyddol ac academyddion eraill i benderfynu ar y sefyllfa bresennol ac i adolygu'r angen.</p> <p>Defnyddiwyd gwaith ymchwil ar ddefnyddio seliwr tyllau a farnais fflworid i arwain y gwaith o adolygu'r Cynllun Gwên.</p>

**CYFLAWNI CYNLLUN CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER IECHYD Y GEG  
(Y CYNLLUN CENEDLAETHOL) 2016-17**

	(Cynllun Cenedlaethol: tudalennau 37 a 42)	<p>Gwnaed cais llwyddiannus i NISCHR am ymchwil i ganfyddiadau cleifion o ofal a ddarperir gan therapyddion deintyddol mewn practisau deintyddol. Cefnogir yr ymchwil gan grŵp llywio amlsefydliadol.</p> <p>Mae Telerau ac Amodau Gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y CDS yn nodi pwysigrwydd cymryd rhan mewn ymchwil berthnasol, ac fe'i nodir yn y Cynllun Datblygu Deintyddiaeth Gofal Arbennig newydd.</p> <p>Cafodd Pwyllgor Deintyddol Cymru gyflwyniad ar waith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sydd wedi annog o leiaf un CDS i ymgysylltu â thîm ymchwil y bwrdd iechyd i ymchwilio i ymchwil amlbroffesiynol i ofal ar gyfer pobl ag anghenion gofal arbennig.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu strategaethau addysg a hyfforddiant deintyddol.</p>
--	--	--